# SESIYNAU ELSA

MAE SESIYNAU ELSA FEL AFER YN CAEL EU CYNNAL YN UIGOL, OND GELLIR YSTYRIED SESIYNAU GRŴP OS YW HYN YN CYD-FYND GYDA TARGED Y PERSON IFANC. BYDD HEFYD ANGEN YSTYRIED DYNAMEG POSIB GRŴP AC OS FYDD Y PERSON IFANC YN GYFFORDDUS MEWN GRŴP.

BOED Y PERSON IFANC MEWN SESIWN UNIGOL NEU GRŴP, FE FYDD YR ELSA WEDI CYNLLUNIO YN DRYLWYR CYN CYCHWYN Y SESIYNAU ER MWYN SICRHAU FOD Y SESIWN YN BERTHNASOL I'W ANGHENION.

## ENGRAIFFT (DDIM Y SESIWN CYCHWYNOL)

- DECHRAU'R SESIWN YN GOFYN SUT WYTHNOS MAENT WEDI CAEL, NEU OS OES GANDDYNT RYWBETH MAENT EISIAU EI RANNU.
- PRIF WEITHGAREDD: RHYWBETH MAE'R ELSA WEDI EI GYNLLUNIO SYDD YNGHLWM AC UN O DARGEDAU'R PERSON IFANC E.E. SESIWN AR HUNAN HYDER. FE FYDD GAN YR ELSA ADNODDAU ER MWYN HELPU I DDATBLYGU HYN, EFALLAI DRWY ADLEWYRCHU AR EU CRYFDERAU A THALENTAU PERSONOL.
- EFALLAI GOSOD GWAITH CARTREF IDDYNT FEDDWL AM 3 PETH DA MAENT WEDI LLWYDDO I'W WNEUD YR WYTHNOS YNA. DRWY WNEUD HYN BYDD CYFLE I FEDDWL AM EU CRYFDERAU.
- CYFLE I YMLACIO CYN MYND YN NOL I'W GWERS.



## CWESTIYNAU A OFYNIR YN AML (FAQ)

**SUT FYDD FY MHLENTYN YN CAEL EI GYFEIRIO AT Y RHAGLEN ELSA?**
- CYDLYNYDD ADY YR YSGOL SYDD YN GYFRIFOL AM GYFEIRIO PLANT AT SESIYNAU ELSA, GALL HYN DDEILLIO O YMGYNGHORIAD GYDA SEICOLEGYDD ADDYSGOL YR YSGOL NEU DRWY SGWRS GYDA STAFF NEU RIENI AM BRYDERON.

**COLLI GWERSI?**
- FE FYDD YR ELSA YN TRIO AMRYWIO PRYD FYDD Y SESIYNAU ER MWYN OSGOI METHU'R UN GWERSI POB WYTHNOS. FE FYDD HEFYD AMSER I DDAL I FYNY HEFO GWAITH SY'N CAEL EI FETHU.

**CYFRINACHEDD?**
- MAE CYNNWYS Y SESIYNAU ELSA YN GWBL GYFRINACHOL A NI FYDD Y CYNNWYS YN CAEL EI DRAFOD GYDA STAFF NAC Y RHIENI ONI BAI FOD PRYDER AM LES EICH PLENTYN NEU LES UNIGOLYN ARALL.

**YDW I YN CAEL GWYBOD AM GYNNWYS Y SESIYNAU?**
-FEL Y SONNIR UCHOD, NI FYDDWCH YN CAEL GWYBOD AM GYNNWYS Y SESIYNAU ONI BAI AM BRYDERON AM LES EICH PLENTYN, OND FE ALLWCH GYFRANNU AT OSOD TARGEDAU EICH PLENTYN A DERBYN ADBORTH AR SUT MAE'R SESIYNAU YN MYND

**A FYDD GWEDDILL Y DOSBARTH YN YMWYBODOL PAM FOD FY MHLENTYN YN GADAEL Y DOSBARTH?**
-NID YW HYN YN RHYWBETH I BOENI AMDANO YN ORMODOL, MAE PLANT YN CAEL EU TYNNU ALLAN O WERSI YN AML AM WAHANOL RESYMAU, MEGIS GRWPIAU IAITH, SESIYNAU DARLLEN, GWERSI OFERYN, FELLY MAE DISGYBLION WEDI HEN ARFER GYDA HYN YN DIGWYDD HEB EI GWESTIYNU.

AM FWY O WYBODAETH AM Y RHAGLEN ELSA:
WWW.ELSANETWORK.ORG

# RHAGLEN ELSA

GWYBODAETH AR GYFER RHIENI / GOFALWYR UWCHRADD

GWASANAETH SEICOLEG ADDYSG GWYNEDD A MON

ELSA NETWORK

ADYaCh
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Additional Learning Needs and Inclusion

## BETH YW ELSA?

CYMHORTHYDDION LLES EMOSIYNOL (EMOTIONAL LITERACY SUPPORT ASSISTANTS) YW ELSA. CYMHORTHYDDION PROFIADOL SYDD EISOES YN RHAN O STAFF YR YSGOL, OND WEDI DERBYN HYFFORDDIANT PELLACH AR SUT I GEFNOGI LLES A DATBLYGIAD EMOSIYNOL PLANT GAN SEICOLEGWYR ADDYSGOL. FEL RHAN O'R CWRS MAENT YN MYNYCHU GORUCHWYLIAETH REOLAIDD GAN Y SEICOLEGWYR ADDYSG ER MWYN EU CEFNOGI GYDA'U GWAITH.

BETH YW ELSA? GALL ELSA HELPU PLANT A PHOBL IFANC I DDEALL EU HEMOSIYNAU A PHARCHU EU TEIMLADAU A THEIMLADAU ERAILL. MAENT YN GALLU RHOI'R GOFOD A CHYFLE MAE RHAI PLANT ANGEN I FEDDWL AMDANYNT EU HUNAIN A SUT GALLANT DDELIO EFO'R TEIMLADAU YMA MEWN FFORDD EFFEITHIOL.

## SUT MAE'R RHAGLEN ELSA'N GWEITHIO?

RHAN AMLAF BYDD RHAGLEN ELSA YN RHEDEG AM GYFNOD O RHWNG 6 A 12 WYTHNOS, MAE HYN YN GWBL DDIBYNNOL AR GYNNYDD Y PERSON IFANC YN YSTOD Y SESIYNAU BLE BYDDENT YN DYSGU SGILIAU NEWYDD A STRATEGAETHAU YMDOPI.

CYN DECHRAU'R SESIYNAU BYDD ANGEN I'R ELSA FEDDWL AM DARGEDAU AR GYFER Y PERSON IFANC ER MWYN CAEL NOD PENODOL I'W GYRRAEDD ERBYN DIWEDD Y SESIYNAU. EFALLAI RHYWBETH MAE'R PERSON IFANC ANGEN CYMORTH I'W GYRRAEDD NEU EI GYFLAWNI.

UNWAITH FYDD YR ELSA YN TEIMLO FOD Y PERSON IFANC WEDI CYFLAWNI EU NOD, FE FYDD Y SESIYNAU ELSA YN DOD I BEN. GALL HYN FOD YN ANODD I RAI FELLY EFALLAI GALL YR ELSA GYNNIG 'CHECK-IN' BOB HYN A HYN ER MWYN EU HATGOFFA FOD RHYWUN YNO THAT SOMEONE'S THERE TO TALK TO.

## GYDA BETH ALL ELSA HELPU?

COLLED A PHROFEDIGAETH

RHEOLEIDDIO EMOSIYNAU

TEIMLADAU CRYF

PERTHNASAU

YMDDYGIAD

PRYDER A GORBRYDER

STRATEGAETHAU YMDOPI AC YMLACIO

HUNAN HYDER

SGILIAU CYMDEITHASOL